



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Nodyn Polisi Caffael Cymru WPPN 01/22: contractau gyda chyflenwyr o Rwsia a Belarws

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mabwysiadu Nodyn Polisi Caffael Llywodraeth y DU 01/22.

Cyhoeddwyd gyntaf: 4 Ebrill 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 4 Ebrill 2022

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/wppn-01-22-contractau-gyda-chyflenwyr-o-rwsia-a-belarws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

[Nodau Ilesiant](#)

[Pwyntiau i'w nodi](#)

[Diben](#)

[Lledaenu a chwmpas](#)

[Cefndir](#)

[Cyfeiriadau yn UKG PPN 01/22](#)

[Deddfwriaeth](#)

[Amseru](#)

[Datganiad Polisi Caffael](#)

[Manylion cyswllt](#)


[Cydnabyddiaeth](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/wppn-01-22-contractau-gyda-chyflenwyr-o-rwsia-a-belarws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae'r Nodyn Polisi Caffael hwn yn cefnogi nodau llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol



Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/wppn-01-22-contractau-gyda-chyflenwyr-o-rwsia-a-belarws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Cymru gydnerth
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Pwyntiau i'w nodi

- Nid yw'r wybodaeth a nodir yn y ddogfen hon yn gyngor cyfreithiol nac yn ganllawiau statudol ac ni fwriedir iddi fod yn gynhwysfawr. Ni fwriedir ychwaith i ddiystyru'r rhwymedigaethau cyfreithiol presennol sy'n berthnasol i Awdurdodau Contractio Sector Cyhoeddus Cymru – dylai partïon sy'n contractio geisio eu cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain fel y bo'n briodol. Sylwch hefyd fod y gyfraith yn destun newid cyson a dylid ceisio cyngor mewn achosion unigol. Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r sefyllfa ym mis Mawrth 2022.
- Mae'r Nodyn Polisi Caffael hwn yng Nghymru (WPPN) yn adeiladu ar Ddatganiad Polisi Caffael Cymru a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (SI 2015/102) fel y'i diwygiwyd gan Ddatganiad Polisi Caffael Cymru (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) Rheoliadau 2020 (SI 2020/1319).
- Mae'r nodyn hwn yn rhagdybio lefel benodol o wybodaeth am gaffael cyhoeddus. Mae ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru LLYW.CYMRU](#) a dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at CommercialPolicy@llyw.cymru neu drwy [wasanaethau cwsmeriaid Llywodraeth Cymru](#).

1. Diben

1.1 Mae WPPN 01/22 yn mabwysiadu [Nodyn Polisi Caffael Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd yn ddiweddar PPN 01/22: contractau gyda chyflenwyr o Rwsia a Belarws](#) (“UKG PPN 01/22”) a chwestiynau cyffredin cysylltiedig a ddrafftiodd gan Swyddfa'r Cabinet.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o [LLYW.CYMRU](#), efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/wppn-01-22-contractau-gyda-chyflenwyr-o-rwsia-a-belarws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mabwysiadu PPN UKG 01/22. Mae'r WPPN hwn yn tynnu sylw at gyfeiriadau o fewn UKG PPN 01/22 a'r ddogfen gwestiynau a ofynnir yn aml nad ydynt yn berthnasol i awdurdodau contractio.

2. Lledaenu a chwmpas

2.1 Mae'r WPPN hwn wedi'i gyhoeddi i gynorthwyo holl Awdurdodau Contractio WPS yng Nghymru, gan gynnwys adrannau Llywodraeth Cymru, cyrff GIG Cymru, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach. Mae'r WPPN hwn yn cwmpasu contractau nwyddau, gwasanaethau a gwaith sy'n cael eu darparu yng Nghymru.

2.2 Dosbarthwch y WPPN hwn ar draws eich sefydliad ac i sefydliadau perthnasol eraill yr ydych yn gyfrifol amdanynt, gan dynnu sylw penodol y rhai mewn rolau caffael, masnachol a chyllid.

3. Cefndir

3.1 Mae'r ymosodiad ar Wcráin gan Rwsia wedi'i gondemnio'n fyd-eang mewn modd digynsail. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno sancsiynau ariannol a buddsoddi gyda'r nod o annog Rwsia i roi'r gorau i gamau gweithredu sy'n ansefydlogi'r Wcráin. Dylai awdurdodau Contractio WPS ystyried sut y gallant dorri cysylltiadau ymhellach â chwmnïau a gefnogir gan wladwriaethau Rwsia a Belarws.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/wppn-01-22-contractau-gyda-chyflenwyr-o-rwsia-a-belarws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

4. Cyfeiriadau yn UKG PPN 01/22 nad ydynt yn berthnasol i Awdurdodau Contractio WPS

4.1 Noder y cyfeiriadau canlynol nad ydynt yn berthnasol i awdurdodau contractio WPS:

UKG PPN 01/22

4.1.1 Paragraff 4

“ Mae'r Adran Lefelu, Tai a Chymunedau yn ystyried gwelliant drwy is-ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â'r mater ”

Nid yw'r mater hwn wedi'i godi fel un arwyddocaol yng Nghymru ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddiwygiad i'r ddeddfwriaeth yn cael ei ddilyn..

4.1.2 Paragraff 8

“ Dylai sefydliadau Llywodraeth Ganolog nodi bod yn rhaid cael caniatâd Trysorlys EM yn gyntaf ar gyfer unrhyw drafodion sy'n gosod cynseiliau, yn newydd, yn ddadleuol neu a allai achosi sgil-ffeithiau mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus, yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus”. ”

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/wppn-01-22-contractau-gyda-chyflenwyr-o-rwsia-a-belarws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ddim yn berthnasol

4.1.3 Paragraff 12

“ Mewn sefydliadau llywodraeth ganolog, y Cyfarwyddwr Masnachol ddylai fod hwn. Dylai Swyddogion Cyfrifyddu gymeradwyo penderfyniadau terfynol i derfynu unrhyw gontractau o dan y PPN hwn, gan sicrhau bod caniatâd priodol gan Drysorlys EM wedi'i gael yn gyntaf. ”

Ddim yn berthnasol

4.1.4 Asesu Risgiau (tudalen 6) – Paragraff 7

“ o gofio y gallai hyn ei gwneud yn ofynnol i chi ofyn am gymeradwyaeth Trysorlys EM mewn rhai achosion" a "Dylai sefydliadau Llywodraeth Ganolog nodi bod yn rhaid cael caniatâd y Trysorlys yn gyntaf yn y ffordd arferol, ar gyfer unrhyw drafodion sy'n gosod cynseiliau, yn newydd, yn ddadleuol neu a allai achosi sgil-ffeithiau mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus, yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus ”

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/wppn-01-22-contractau-gyda-chyflenwyr-o-rwsia-a-belarws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ddim yn berthnasol

Cwestiynau a ofynnir yn aml

4.1.5 Cwestiwn 2

“ A yw'r polisi hwn yn berthnasol i'r Gweinyddiaethau Datganoledig? ”

Mae'r WPPN hwn yn cadarnhau mabwysiadu UKG PPN 01/22, ond rhaid i awdurdodau contractio Cymru nodi'r meysydd nad ydynt yn berthnasol.

4.1.6 Cwestiwn 16

“ Mae fy nghontract drwy Gytundeb Fframwaith - sut mae cael gafael ar wybodaeth sy'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi? ”

Ble mae eich contract drwy fframwaith Tîm Cyflawni Llywodraeth Cymru, dylech gysylltu â CommercialProcurement.Buildings@gov.wales

4.1.7 Cwestiwn 19

“ Pwy ddylai wneud y penderfyniad i derfynu'r contract? ” – y cyfeiriad; "Os yw'r terfyniad yn ddadleuol, dylai adrannau llywodraeth ganolog geisio cymeradwyaeth gan eu Hysgrifennydd Parhaol ”

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/wppn-01-22-contractau-gyda-chyflenwyr-o-rwsia-a-belarws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ddim yn berthnasol

4.1.8 Cwestiwn 27

“ Beth yw Adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988? ”

gweler pwynt 4.1.1 uchod.

4.1.9 Cwestiwn 30

“ Beth yw'r ystyriaethau Gwerth Gorau y dylai llywodraeth leol eu hystyried mewn perthynas â'r PPN hwn? ”

Ddim yn berthnasol

4.1.10 Cwestiwn 31

“ A fydd ystyriaethau gwerth cymdeithasol llywodraeth leol yn berthnasol i'r PPN hwn? ” – cyfeiriad; "Adran 1 o Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 ”

yn ei lle "Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)"

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/wppn-01-22-contractau-gyda-chyflenwyr-o-rwsia-a-belarws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

5. Deddfwriaeth

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Caffael Cyhoeddus (Gwelliant ac ati) (Ymadael â'r UE) Rheoliadau 2020

6. Amseru

Mae'r WPPN hwn yn effeithiol o'r dyddiad cyhoeddi ar 01/04/2022 hyd nes y caiff ei ddisodli neu ei ganslo.

7. Datganiad Polisi Caffael (WPPS) Llywodraeth Cymru

Mae'r WPPN hwn yn cyd-fynd â'r Egwyddorion WPPS canlynol:

Egwyddor 1

Byddwn yn ysgogi gweithgarwch caffael cydweithredol yng Nghymru i sicrhau'r canlyniadau gwerth cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy mwyaf posibl o wariant cyhoeddus.

Egwyddor 3

Byddwn yn datblygu caffael cynaliadwy hirdymor, sy'n adeiladu ar arfer gorau ac yn ei raddio ac yn gosod camau clir sy'n dangos sut mae caffael yn cefnogi'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/wppn-01-22-contractau-gyda-chyflenwyr-o-rwsia-a-belarws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gwaith o gyflawni amcanion llesiant sefydliadol.

8. Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y WPPN hwn, cysylltwch â:
CommercialPolicy@llyw.cymru

9. Cydnabyddiaeth

Defnyddiwyd y cyhoeddiadau canlynol wrth baratoi'r WPPN hwn:

- [UKG PPN 01/22: contractau gyda chyflenwyr o Rwsia a Belarws](#)
- [UKG PPN 01/22: Cwestiynau Cyffredin](#)

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllennwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/wppn-01-22-contractau-gyda-chyflenwyr-o-rwsia-a-belarws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).